Canllawiau

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Canllawiau ar gyfer Awdurdodau Priffyrdd Lleol ar Symud Rhwystrau o Hawliau Tramwy

Medi 2016

OGL © Hawlfraint y Goron 2016 WG29384 ISBN digidol: 978 1 4734 7196 2

**Ymwadiad**

Nid yw’r canllawiau hyn yn rhan o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 neu’r Rheoliadau cysylltiedig ac nid oes ganddynt unrhyw effaith gyfreithiol. Maent yn rhoi canllawiau ar y prif nodweddion a gynhwysir yn Rheoliadau Codi Rhwystrau oddi ar Briffyrdd (Cymru) 2004 (O.S. Rhif 317 (Cy. 34)) ond nid ydynt yn ceisio darparu esboniad cynhwysfawr o bob darpariaeth.

Mae copïau o’r ffurflenni a’r canllawiau ar gael oddi wrth Cyfoeth Naturiol Cymru a gwefan Llywodraeth Cymru. Dylai’r ffurflenni a gyflwynir i’r awdurdod lleol gael eu cyflwyno bob amser mewn copi caled.

## CANLLAWIAU

### DEDDF CEFN GWLAD A HAWLIAU TRAMWY 2000
### CODI RHWYSTRAU ODDI AR HAWLIAU TRAMWY

**Cynnwys**

*Tudalen*


1. Cyflwyniad ........................................................................................ 1
2. Esboniad o Ddarpariaethau Adran 63 ............................................................ 1
3. Mathau o Rwystrau a Gynhwysir gan y Gweithdrefnau hyn ............................ 1
4. Rhwystrau a Hepgorir gan y Ddeddfwriaeth Bresennol o Ddarpariaethau Adran 63 ........................................................................................ 2
5. Y Gweithdrefnau a'r Ffurflenni y mae eu hangen ............................................ 2
6. Trefniadau Arddangos ........................................................................... 3
7. Pan na Chaniateir gwneud Gorchmynion ........................................................ 3
8. Trefniadau Apelio ............................................................................... 4

Atodiad A

Y Broses ar Gyfer Delio â Rhwystrau Honedig i Hawliau Tramwy .......................... 5

Ffurflen 1

Hysbysiad o Gais i Awdurdod Priffyrdd Lleol i Sicrhau bod Rhwystr Honedig yn cael ei Godi

Ffurflen 2

Hysbysiad bod yr Awdurdod Priffyrdd Lleol wedi Cael Cais i Sicrhau bod Rhwystr yn cael ei Godi

Ffurflen 3

Hysbysiad i berson a Gyflwynodd Hysbysiad i'r Awdurdod Priffyrdd Lleol yn Gofyn bod Rhwystr yn cael ei Godi (Ffurflen 1) bod yr Awdurdod Priffyrdd Lleol wedi cyflwyno Hysbysiad i'r Person(au) a Nodwyd fel y Rhai sy'n Gyfrifol

Ffurflen 4

Hysbysiad o Fwriad i wneud Cais i'r Llys Ynadon am Orchymyn yn ei Gwneud yn Ofynnol i'r Awdurdod Priffyrdd Lleol Sicrhau bod Rhwystr yn cael ei Godi

Ffurflen 5

Hysbysiad o Orchymyn a Wnaed gan Lys Ynadon yn ei Gwneud yn Ofynnol i'r Awdurdod Priffyrdd Lleol Sicrhau bod Rhwystr yn cael ei Godi

**DEDDF CEFN GWLAD A HAWLIAU TRAMWY 2000**
**RHEOLIADAU CODI RHWYSTRAU ODDI AR BRIFFYRDD (CYMRU) 2004**

## 1. Diben y Canllawiau Hyn

1.1 Diben y Canllawiau Hyn yw rhoi cyngor i swyddogion hawliau tramwy cyhoeddus awdurdodau lleol ar weithredu Adran 63 o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 ("y Ddeddf").

1.2 Daeth yr Adran hon o'r Ddeddf i rym ar 1 Ebrill 2004. Nododd Rheoliadau Codi Rhwystrau oddi ar Briffyrdd (Cymru) 2004 (O.S. Rhif 317 (Cy.34))[1] ffurf a chynnwys yr hysbysiadau sy'n ofynnol o dan y gweithdrefnau a nodir yn y Ddeddf.

## 2. Esboniad o Ddarpariaethau Adran 63

2.1 Mae gan yr awdurdodau lleol ddyletswydd o dan Adran 130 o Ddeddf Priffyrdd 1980 i atal hawliau tramwy cyhoeddus rhag cael eu cau neu eu rhwystro cyn belled â phosibl. Os bydd unigolyn o'r farn bod awdurdod priffyrdd yn methu yn y ddyletswydd hon mae'r darpariaethau newydd yn Adran 63 yn galluogi'r person hwnnw i gyflwyno hysbysiad i'r awdurdod priffyrdd yn gofyn iddo sicrhau bod y rhwystr yn cael ei godi. Os na fydd yr awdurdod yn gweithredu, yna caiff y person a gyflwynodd yr hysbysiad geisio Gorchymyn Llys Ynadon yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol weithredu.

2.2 Dylid nodi mai rhai mathau o rwystrau yn unig a gynhwysir gan ddarpariaethau'r Ddeddf ac nad ydynt yn gymwys ond i hawliau tramwy – llwybrau troed, llwybrau ceffylau, a chilffyrdd cyfyngedig, ac i ffyrdd a ddangosir ar fap diffiniol fel cilffordd gyfyngedig neu gilffordd sydd ar agor i bob traffig (BOAT).

## 3. Mathau o Rwystrau a Gynhwysir gan y Gweithdrefnau Hyn

3.1 Mae'r prif fathau o rwystr a gynhwysir gan y gweithdrefnau hyn fel a ganlyn:

i. Unrhyw strwythur – heblaw'r rhai a restrir ym mharagraff 4 isod – h.y. unrhyw beiriant, pwmp, postyn, neu unrhyw wrthrych arall sy'n gallu peri rhwystr, boed ar olwyni neu beidio.
ii. Unrhyw beth a adewir ar hawl dramwy sy'n peri niwsans [o dan Adran 149 o Ddeddf Priffyrdd.]
iii. Gwrych, coeden neu brysgwydden neu lystyfiant o unrhyw fath arall sy'n hongian dros hawl dramwy fel eu bod yn peryglu neu'n rhwystro hynt cerbydau, cerddwyr, neu farchogwyr cyfreithlon [adran 154 o Ddeddf Priffyrdd.]

3.2 Mae "Rhwystr" yn cynnwys amrywiaeth eang o wrthrychau. Mae gwrthrychau o'r fath a allai beri rhwystr (a allai gynnwys muriau cyfochrog, weiren bigog neu ffensys trydanol) ac eitemau a roddir ar lwybr ac a allai beri niwsans (megis dwr parhaol, sbwriel yn sgil gwaith cloddio, beiciau pedal a cherbydau sydd wedi cael eu gadael a chamfeydd heb awdurdod) o fewn cwmpas y gweithdrefnau hyn.

[1] http://www.wales-legislation.hmso.gov.uk/legislation/wales/wsi2004/20040317e.htm

## 4. Rhwystrau a hepgorir gan y ddeddfwriaeth bresennol o ddarpariaethau Adran 63

4.1 Mae'r rhain yn cynnwys:

- Adeiladau dros dro neu barhaol.
- Gwaith i adeiladu adeilad.
- Unrhyw strwythur arall (gan gynnwys pabell, carafán, cerbyd neu strwythur dros dro neu strwythur symudol arall) sydd wedi'i gynllunio, ei addasu neu'i ddefnyddio i bobl fyw ynddo.
- Unrhyw ffordd sydd mewn cyflwr dadfeiliedig (h.y. ffordd y gellir rhoi gorchymyn ar ei chyfer o dan Adran 56 o Ddeddf Priffyrdd 1980).
- Pobl sy'n achosi rhwystr.

4.2 Ble mae wyneb y briffordd, gan gynnwys pontydd troed, mewn cyflwr gwael (yn hytrach na bod rhywbeth wedi'i roi yn rhwystr ar y briffordd), gellir datrys y broblem o dan y weithdrefn a nodir yn adran 56 o Ddeddf 1980. Ble mae clwyd, camfa neu strwythur tebyg ar draws llwybr troed mewn cyflwr gwael, gellir ymdrin â hwy drwy'r weithdrefn a nodir o dan adran 146 o Ddeddf 1980. Er bod colli rhan o'r ffordd oherwydd erydiad afon a chlogwyn yn rhwystr i'w defnyddio, nid yw'n rhwystr o fewn cwmpas y darpariaethau hyn.

4.3 Hepgorir rhwystrau a achosir gan aredig neu gnydio hefyd oherwydd natur dros dro'r gweithgareddau hyn. Mae hi bron yn sicr y byddant wedi diflannu erbyn i'r broses o gyflwyno hysbysiad i'r awdurdod priffyrdd trwodd at weithredu gan y Llys Ynadon gael ei chwblhau. Gall awdurdodau lleol wedyn ddelio â'r rhain o dan bwerau eraill, gan gynnwys pwerau iechyd amgylcheddol, sydd ar gael iddynt.

## 5. Y Gweithdrefnau a'r Ffurflenni y mae eu Hangen

5.1 Ceir nifer o gamau gweithdrefnol yn y broses hon. Ceir fersiwn gryno o'r rhain ar ffurf siart lif yn Atodiad A. Mae'r camau allweddol fel a ganlyn a dylid eu darllen ar y cyd â'r nodiadau esboniadol a amgaeir gyda'r ffurflenni.

### Cam 1

5.2 Dechreuir y weithdrefn gan unrhyw berson sy'n cyflwyno hysbysiad i'r awdurdod priffyrdd lleol yn gofyn iddo sicrhau bod rhwystr yn cael ei godi oddi ar hawl dramwy. Amgaeir yr hysbysiad – (Ffurflen 1).

### Cam 2

5.3 O fewn un mis calendr ar ôl cael Ffurflen 1 mae'n ofynnol i'r awdurdod priffyrdd lleol gyflwyno dau hysbysiad, sef Ffurflenni 2 a 3 a amgaeir. Cyflwynir Ffurflen 2 i bob person a enwir ar Ffurflen 1 ac unrhyw bersonau eraill sy'n gyfrifol ym marn yr awdurdod priffyrdd lleol am y rhwystr honedig. Mae'r hysbysiad yn eu hysbysu bod Ffurflen 1 wedi'i chyflwyno i'r awdurdod priffyrdd lleol, ac yn datgan pa gamau, os oes rhai, y mae'r awdurdod yn bwriadu eu cymryd. Rhagwelir y bydd y camau hyn yn cynnwys archwilio'r rhwystr honedig a rhoi cyfle i'r person y barnwyd ei fod yn gyfrifol amdano gyfle i'w symud o fewn terfyn amser penodedig (mater i'r awdurdod yw gorfodi'r terfyn amser hwn.

5.4 Os na all ddarganfod, o fewn yr amser a roddwyd, pwy sy'n gyfrifol am y rhwystr, bydd rhwymedigaeth ar yr awdurdod priffyrdd lleol i gyflawni'r gwaith sy'n ofynnol ar gyfer codi'r rhwystr. Er hynny, os caiff y rhai sy'n gyfrifol eu hadnabod yn ddiweddarach byddai'r awdurdod yn gallu ceisio adennill costau codi'r rhwystr.

5.5 Ni ddylid datgelu enw a chyfeiriad y person sy'n cyflwyno Ffurflen 1 i'r rhai a enwir yn Ffurflen 2, oni roddir caniatâd i wneud hynny.

5.6 Mae Ffurflen 3 (gyda Ffurflen 2 ynghlwm wrthi) wedyn yn cael ei chyflwyno i'r person a gyflwynodd yr hysbysiad gwreiddiol (Ffurflen 1) i'r awdurdod priffyrdd lleol. Bydd hon yn datgan bod Ffurflen 2 wedi'i chyflwyno i'r rhai y mae'r awdurdod wedi barnu eu bod yn gyfrifol am y rhwystr.

**Cam 3**

5.7 Os na chodir y rhwystr, caiff y person a gyflwynodd yr hysbysiad gwreiddiol (Ffurflen 1) wneud cais i'r Llys Ynadon am Orchymyn. Byddai'r gorchymyn hwn yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod priffyrdd lleol gymryd y cyfryw gamau ag a bennir yn y Gorchymyn i godi'r rhwystr.

5.8 O leiaf 5 niwrnod cyn gwneud cais i'r Llys, rhaid i'r person a gyflwynodd yr hysbysiad gyflwyno hysbysiad (Ffurflen 4) i'r awdurdod priffyrdd lleol o dan sylw yn nodi ei fwriad i gymryd y camau hyn. Er hynny, ni chaniateir cyflwyno Ffurflen 4 tan o leiaf ddau fis ar ôl y dyddiad y cyflwynwyd yr hysbysiad gwreiddiol (Ffurflen 1), ond rhaid i hyn fod o fewn 6 mis ar ôl cyflwyno Ffurflen 1 i'r awdurdod priffyrdd lleol.

**Cam 4**

5.9 Lle mae'r Llys Ynadon yn gwneud Gorchymyn ar ôl hynny rhaid i'r awdurdod priffyrdd lleol wedyn arddangos hysbysiad i'r perwyl hwnnw (Ffurflen 5).

**Mae'n bwysig bod y ffurflenni yn cael eu llenwi yn gywir, gan y gallai unrhyw ffurflenni anghyflawn neu annarllenadwy fod yn annilys. Byddwch cystal â sicrhau bod yr holl wybodaeth y mae ei hangen (byddai gwybodaeth sy'n cael ei marcio fel gwybodaeth ddewisol o gymorth ond ddim yn hanfodol) yn cael ei darparu.**

## 6. Trefniadau Arddangos

6.1 Rhaid i'r awdurdod priffyrdd lleol arddangos copïau o'r hysbysiad o boptu i'r rhwystr, a lle mae'r briffordd (neu'r briffordd gysylltu) yn ymuno â phriffordd sydd wedi'i metelu. Rhaid anfon copïau hefyd at y rhai y nodwyd bod ganddynt fuddiant, neu sydd wedi dweud bod ganddynt fuddiant, yn y Gorchymyn.

6.2 Caiff y Gorchmynion effaith ar yr 22ain ddiwrnod y gwneir y Gorchymyn gan y Llys Ynadon.

## 7. Pan na chaniateir gwneud Gorchmynion

7.1 Mae'r Ddeddf yn cynnwys darpariaethau i alluogi awdurdod priffyrdd lleol i atal Gorchymyn rhag cael ei wneud os gall fodloni'r Llysoedd:

- bod y ffaith bod y ffordd o dan sylw yn hawl dramwy gyhoeddus (fel y'i diffinnir o fewn adran 130A(2) o Ddeddf Priffyrdd 1980) yn destun anghydfod difrifol;
- bod codi'r rhwystr y tu allan i gwmpas eu dyletswydd statudol i atal, cyn belled â phosibl, hawl dramwy rhag cael ei chau neu'i rhwystro;
- bod gan yr awdurdod priffyrdd lleol drefniadau ar waith eisoes i ddelio â'r rhwystr o fewn amser rhesymol.

## 8. Trefniadau apelio

8.1 Mae gan yr awdurdod priffyrdd lleol a'r person(au) yr honnir eu bod yn gyfrifol am y rhwystr hawl i apelio i Lys y Goron yn erbyn penderfyniad y Llys Ynadon. Mae gan y partïon hyn hefyd yr hawl i gael gwrandawiad pan fydd y cais am Orchymyn i godi rhwystr yn cael ei ystyried gan y Llys Ynadon.

8.2 Rhaid i hysbysiad am apêl i Lys y Goron gael ei roi o fewn 21 diwrnod ar ôl y dyddiad y gwnaed Gorchymyn y Llys Ynadon. (Mae gan Lys y Goron bwer i ymestyn y cyfnod ar gyfer apelio).

## Ymholiadau

Dylid cyfeirio ymholiadau am y canllawiau hyn at:

Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Ffôn: 0300 0604400

E-bost: Cymorth@cymru.gsi.gov.uk

**Atodiad A**

**Y broses ar gyfer ymdrin â rhwystrau honedig i hawliau tramwy**

Yr achwynydd yn cyflwyno hysbysiad i'r awdurdod priffyrdd lleol perthnasol yn gofyn bod y rhwystr yn cael ei godi.
**Ffurflen 1**

**O fewn 1 mis**

Mae'n ofynnol i'r awdurdod priffyrdd lleol gyflwyno 2 hysbysiad:
Ffurflen 2 a Ffurflen 3

Yr awdurdod priffyrdd lleol yn cyflwyno hysbysiad i'r rhai a enwir yn Ffurflen 1 ac unrhyw rai eraill y mae'n credu a all fod yn gyffifol am y rhwystr
**Ffurflen 2**

Yr awdurdod priffyrdd lleol yn cyflwyno hysbysiad i'r achwynydd yn datgan pa gamau, os oes rhai, y mae'n bwriadu eu cymryd mewn perthynas â'r rhwystr.
**Ffurflen 3**

Yr awdurdod neu'r rhai sy'n gyfrifol am greu rhwystr yn gweithredu i godi'r rhwystr.
**Ni fydd angen unrhyw gamau pellach**

**Dim cynt na 2 fis ar ol cyflwyno Ffurflen 1**

Os na fydd yr awdurdod neu'r rhai sy'n gyfrifol am y rhwystr yn cymryd camau i godi'r rhwystr, caiff yr achwynydd gyflwyno hysbysiad i'r awdurdod yn datgan ei fod yn bwriadu gwneud cais am Orchymyn Llys Ynadon i godi'r rhwystr.
**Ffurflen 4**

**5 diwrnod yn ddiweddarach**

Caiff yr achwynydd wneud cais am Orchymyn Llys i drefnu bod y rhwystr yn cael ei godi.

**O fewn 6 mis o gyflwyno Ffurflen 1**

Caiff y Llys Ynadon wneud gorchymyn yn erbyn yr awdurdod priffyrdd lleol i godi'r rhwystr. Rhaid arddangos hysbysiad bod y gorchymyn wedi'I wneud gan yr awdurdod ar yr hawl dramwy berthnasol a'i hanfon at y partïon sydd â budduant.
**Ffurflen 5**